

Rhif: WG34426



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## **Ymgynghoriad ar weithrediad rheolau UE diwygiedig ar adnabod ceffylau yng Nghymru**

Dyddiad cyhoeddi: 07 March 2018

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 30 May 2018

<b>Trosolwg</b>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio safbwyntiau ar ei dull arfaethedig o weithredu Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/262 yn ymwneud ag adnabod equidae yng Nghymru.</p> <p>Mae Rheoliadau Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/262 (Rheoliad 2015/262) yn berthnasol yn holl Aelod-wladwriaethau Ewrop o 1 Ionawr 2016 ac mae angen ei roi ar waith trwy ddeddfwriaeth ddomestig.</p>
<b>Sut i ymateb</b>	<p>Rhowch destun i esbonio sut mae ymateb i'r ymgynghoriad, e.e. drwy ddefnyddio'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen, neu drwy lenwi ffurflen ar-lein.</p>
<b>Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig</b>	<p><b>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.</b></p> <p><a href="http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32015R0262&amp;from=SV">http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32015R0262&amp;from=SV</a></p>
<b>Manylion Cysylltu</b>	<p>I gael rhagor o wybodaeth:</p> <p>Tîm Polisi Ceffylau Yr Is-adran Amaeth – Cynaliadwyedd a Datblygu Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ</p> <p>e-bost: <a href="mailto:EquinelDceffylau@gov.wales">EquinelDceffylau@gov.wales</a> Rhif ffôn: 03000 255022</p>
<b>Diogelu Data</b>	<p>Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.</p> <p>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd</p>

enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Rhagair

Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd (y Comisiwn) gynllun gweithredu 5 pwynt yn 2013 mewn ymateb i'r datguddiadau am halogiad cig ceffyl yn y gadwyn fwyd pobl. Mae'r cynllun yn cynnwys camau i gryfhau'r gofynion o ran adnabod ceffylau er mwyn lleihau'r perygl y bydd ceffylau sydd wedi cael eu trin gyda chynhyrchion meddyginiaethol penodol yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd. Hefyd, cyflwynodd y Comisiwn ofyniad gorfodol ar bob Aelod-wladwriaeth i gofnodi pasbortau mewn cronfa ddata genedlaethol ganolog.

Daeth Rheoliad 2015/262 i rym ar 1 Ionawr 2016 ac mae'n berthnasol yn uniongyrchol i bob Aelod-wladwriaeth. Mae'n diddymu ac yn disodli Rheoliad (CE) 504/2008 blaenorol y Comisiwn. Bu'n ofyniad cyfreithiol o'r dyddiad hwnnw i berchnogion adnabod eu ceffylau yn unol â Rheoliad 2015/262. Mesur iechyd pobl yw hwn yn bennaf, gyda'r nod o gryfhau'r system bresennol o 'basbortau ceffylau' a sicrhau nad yw ceffylau penodol yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd pobl. Bydd y rheolau adnabod yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru trwy ddeddfwriaeth ddomestig newydd.

Mae'r prif ddarpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn Rheoliad 2015/262 yr un fath yn eu hanfod â'r rheini sydd wedi eu cynnwys yn y Rheoliad blaenorol, a weithredir trwy Reoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009. Fodd bynnag, ceir rhai gwahaniaethau allweddol:

- Gofyniad i'r holl Aelod-wladwriaethau weithredu cronfa ddata geffylau ganolog yn cynnwys gwybodaeth benodol am geffylau yn eu tiriogaethau, gyda mwy o rannu gwybodaeth rhwng Aelod-wladwriaethau;
- Rheolaethau mwy llym o ran rhifo microsglodion gydag opsiwn i Aelod-wladwriaethau ei gwneud yn ofynnol i ficrosglodynnu ceffylau hŷn;
- Gofyniad i hysbysu Cyrff Cyhoeddi Pasbortau pan fydd ceffyl wedi cael ei allgofnodi o'r gadwyn fwyd ar ôl derbyn triniaethau meddygol penodol a chofnodi'r manylion hyn yn y gronfa ddata geffylau ganolog;
- Safonau gofynnol newydd ar gyfer pasbortau ynghyd â phwerau cryfach i Lywodraeth Cymru atal neu dynnu cymeradwyaeth yn ôl i gyhoeddi pasbortau gan sefydliadau sy'n methu â bodloni'r safonau.

### **Rhowch bennawd yn gofyn - beth yw'r prif faterion? - neu rywbeth tebyg**

Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn? Os oes materion sy'n gwrthdaro â'i gilydd, nodwch nhw'n gryno. Os oes angen, rhowch ddolenni gwe/cyfeiriadau tudalen manwl at atodiadau manylach ynglŷn â'r ymgynghoriad.

### **Rhowch bennawd yn gofyn – ble'r ydym ni nawr? – neu rywbeth tebyg**

Beth yw'r sefyllfa bresennol? Rhowch ddolenni gwe neu gyfeiriadau tudalen os oes angen.

### **Rhowch bennawd yn ymwneud â'r dystiolaeth o blaid newid**

Pam rydyn ni'n cynnig newid? Rhowch ddolenni gwe neu gyfeiriadau tudalen os oes angen.

## **Rhowch bennawd ar gyfer y cynigion**

- Pa newidiadau penodol rydyn ni'n eu cynnig?
- Pa opsiynau rydyn ni'n eu hystyried?
- Beth yw'r canlyniadau rydyn ni'n eu disgwyl?
- Rhowch ddolenni gwe neu gyfeiriadau tudalen os oes angen.
- Mae pwyntiau bwled yn syniad da

## Rhowch bennawd yn ymwneud â'r cwestiynau

### Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

## Ymgynghoriad ar weithrediad rheolau Undeb Ewropeaidd diwygiedig ar adnabod ceffylau yng Nghymru

Cynigion yr ydym yn ceisio eich sylwadau arnynt

### A. Dyddiad terfyn ar gyfer adnabod equidae sy'n cael eu geni yn yr Undeb (Erthygl 12)

Mae erthygl 12 Rheoliad 2015/262 yn nodi mai blwyddyn ar ôl y dyddiad geni fan bellaf yw'r dyddiad terfyn ar gyfer adnabod ceffyl. Fodd bynnag, mae erthygl 12(2) yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau bennu'r dyddiad terfyn hwn yn chwe mis neu i flwyddyn galendr yr enedigaeth.

Yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i geffylau gael eu hadnabod erbyn 31 Rhagfyr yn ystod blwyddyn yr enedigaeth neu chwe mis o'r dyddiad geni, pa bynnag un yw'r dyddiad hwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu nodi mai chwe mis neu erbyn diwedd y flwyddyn galendr (31 Rhagfyr), pa bynnag un sydd hwyr, yw'r dyddiad terfyn ar gyfer adnabod ceffyl. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth bresennol. Mae'r rhan fwyaf o geffylau yn tueddu i gael eu cofrestru erbyn 31 Rhagfyr, sy'n rhoi un dyddiad ar gyfer cofrestru. Ystyrir bod yr opsiwn amgen o chwe mis yn angenrheidiol ar gyfer yr ebolion hynny sy'n cael eu geni'n hwyr yn y flwyddyn, y byddai'n anodd eu hadnabod os oes dim ond cyfnod amser byr rhwng genedigaeth a'r dyddiad terfyn.

**Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno y dylai ceffyl gael ei adnabod o fewn chwe mis o'i enedigaeth, neu erbyn 31 Rhagfyr yn ystod y flwyddyn enedigaeth, pa bynnag un sydd hwyr?**

YDW ..... NAC YDW .....

**Cwestiwn 2: Rhowch resymau am eich barn, ac unrhyw dystiolaeth a lywiodd hyn. Os ydych o'r farn y dylai'r dyddiad terfyn ar gyfer adnabod fod flwyddyn ar ôl genedigaeth fan bellaf, rhowch y rhesymau am y farn hon.**

## **B. Ceisiadau am ddogfennau adnabod ar gyfer equidae sy'n cael eu geni yn yr Undeb Ewropeaidd (Erthygl 11)**

Mae Rheoliad 2015/262 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau bennu cyfyngiadau amser ar gyfer cyflwyno'r cais i adnabod. Pa bynnag derfyn amser sy'n cael ei bennu i adnabod ceffyl (gweler adran A uchod), mae angen i Gyrrff Cyhoeddi Pasbortau gael amser digonol i brosesu ceisiadau. Os bydd Llywodraeth Cymru yn nodi mai 31 Rhagfyr yn ystod y flwyddyn enedigaeth neu chwe mis o'r dyddiad geni, pa bynnag un sydd hwyraf, yw'r dyddiad adnabod, mae'n rhaid i'r rheoliadau nodi dyddiad y mae'n rhaid i Gorff Cyhoeddi Pasbortau dderbyn y ffurflen gais yn ei erbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol y gallai fod gan Gyrrff Cyhoeddi Pasbortau o wahanol faint wahanol amseroedd ar gyfer prosesu cais am ddogfen adnabod. Dylai pob math o Gorff Cyhoeddi Pasbortau allu bodloni'r terfyn amser a bennir. Mae'n ymddangos y byddai un mis calendr (sy'n golygu mai 1 Rhagfyr fyddai'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau os mai 31 Rhagfyr yn ystod y flwyddyn enedigaeth yw'r terfyn amser adnabod) yn gyfnod amser priodol i'w bennu ac rydym yn deall y byddai'n gyson â'r amserlenni sy'n cael eu pennu yn Lloegr a'r Alban.

**Cwestiwn 3: Beth ydych chi'n ei ystyried sy'n derfyn amser rhesymol ar gyfer cyflwyno cais am ddogfen adnabod?**

**Cwestiwn 4: A ydych chi'n credu bod un mis calendr cyn y dyddiad terfyn ar gyfer adnabod ceffyl yn ddigonol?:**

**YDW ..... NAC YDW .....**

## **C. Cronfa Ddata Geffylau Ganolog (Erthygl 38)**

Mae'n ofynnol i'r DU fel Aelod-wladwriaeth o dan Rheoliad 2015/262 sefydlu cronfa ddata geffylau ganolog. Wrth gyflwyno dogfen adnabod, mae'n ofynnol i'r holl Gyrrff Cyhoeddi Pasbortau yn y DU gofnodi gwybodaeth benodol yn eu cronfeydd data eu hunain (e.e. y rhif bywyd unigryw, rhywogaeth, rhyw ac ati ceffyl) ac yna lanlwytho a diweddarau gwybodaeth pasbort o'u cronfeydd data i'r gronfa ddata geffylau ganolog. Bydd hyn yn caniatáu i geffylau gael eu hadnabod yn gywir, er enghraifft trwy archwiliadau mewn lladd-dai i sicrhau bod y ceffyl a gyflwynir i'w ladd yn gymwys ar gyfer y gadwyn fwyd. Bydd hefyd o gymorth i olrhain perchnogion ceffylau a adawyd neu sy'n grwydredig.

Mae Rheoliad 2015/262 yn nodi bod yn rhaid i'r Gyrrff Cyhoeddi Pasbortau lanlwytho a diweddarau'r gronfa ddata geffylau ganolog 15 diwrnod o ddyddiad cofnodi'r wybodaeth ar eu system fan bellaf. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnwys gofyniad yn y rheoliadau domestig y dylai'r gronfa ddata geffylau ganolog gael ei diweddarau 15 diwrnod (yn unol â Rheoliad 2015/262) fan bellaf, ond yn nodi mewn canllawiau y byddai disgwyl i Gyrrff Cyhoeddi Pasbortau, fel mater o arfer da, ddiweddarau'r gronfa ddata geffylau ganolog gyda gwybodaeth newydd neu ddiwygiedig o fewn 24 awr i'r cofnod gael ei greu neu ei ddiwygio gan y Corff Cyhoeddi Pasbortau.

**Cwestiwn 5: Rhowch eich sylwadau a'ch safbwyntiau ar ei gwneud yn ofynnol i Gyrrff Cyhoeddi Pasbortau ddiweddarau'r Gronfa Ddata Geffylau Ganolog gyda gwybodaeth newydd a diwygiedig 15 diwrnod o ddyddiad cofnodi'r wybodaeth fan bellaf**

**Cwestiwn 6. Pa fanteision ydych chi'n credu byddai'n deillio o'i gwneud yn ofynnol i Gyrrff Cyhoeddi Pasbortau ddiweddarau'r Gronfa Ddata Geffylau Ganolog yn fwy cyflym na'r dyddiad terfyn o 15 diwrnod? Nodwch pa feichiau ymarferol/gweinyddol y gallai hyn eu rhoi ar Gyrrff Cyhoeddi Pasbortau wrth ymateb.**

## **Ch. Microsglodynnu pob ceffyl (Erthygl 18)**

Yng Nghymru, mae'n rhaid adnabod yr holl geffylau ac ebolion y cyflwynir dogfennau adnabod ar eu cyfer ar ôl 1 Gorffennaf 2009 trwy fewnblannu microsglodyn. Nid oes angen microsglodynnu unrhyw geffyl y cyflwynir pasbort ar ei gyfer cyn 1 Gorffennaf 2009 ar hyn o bryd.

Mae Rheoliad 2015/262 yn nodi y gall Gyrrff Cyhoeddi Pasbortau a'r awdurdod cymwys ei gwneud yn ofynnol i anifeiliaid ceffylaidd gael eu marcio trwy fewnblannu microsglodyn, os bydd yr awdurdod cymwys o'r farn ei fod yn angenrheidiol i sicrhau bod ei fanylion adnabod yn cael eu dilysu. Mae hyn yn rhoi'r opsiwn i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r holl geffylau y cyflwynwyd pasbort ar eu cyfer cyn 1 Hydref 2009 (sylwer bod rhywfaint o amwysedd ynghylch y dyddiad hwnnw oherwydd trosiad hwyr) nad ydynt wedi eu microsglodynnu ar hyn o bryd gael eu microsglodynnu. Byddai hyn yn golygu y byddai angen adnabod pob ceffyl, waeth beth fo'i oedran, gyda microsglodyn.

Er bod manteision o'i gwneud yn ofynnol i'r holl geffylau gael eu microsglodynnu yn electronig trwy ficrosglodynnu, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod goblygiadau ymarferol ac o ran cost o'i gwneud yn ofynnol i ficrosglodynnu pob ceffyl yng Nghymru yn ôl-weithredol.

**Cwestiwn 7: A ddylai Llywodraeth Cymru ymestyn y gofyniad microsglodynnu i bob ceffyl yng Nghymru, waeth beth fo'i oedran?**

**DYLAI ..... NA DDYLAI .....**

**Cwestiwn 8: Rhowch eich rhesymau a darparwch unrhyw dystiolaeth o pam yr ydych o blaid / ddim o blaid cwstiwn 7.**

## **D. Equidae sy'n byw mewn amodau gwyllt neu led-wyllt (Erthygl 13)**

Roedd Rheoliad 504/2008 yn darparu rhanddirymiad i Aelod-wladwriaethau yn caniatáu i boblogaethau ceffylau diffiniedig sy'n byw mewn amodau gwyllt neu led-wyllt aros ar ardaloedd dynodedig heb fod angen eu hadnabod. Roedd yr angen i gael eu hadnabod yn cael ei sbarduno pan symudwyd y ceffylau o'r ardaloedd dynodedig neu y daethpwyd â nhw i ddefnydd domestig.

Gwnaeth Cymdeithas Gwella Merlod Mynydd Cymru y mae ei 27 o gymdeithasau unigol yn gweithredu ar draws tiroedd comin yn y canolbarth a'r de a Chymdeithas Merlod y



Carneddau yn y gogledd gais am ddirymiad o ran Rheoliad 504/2008 a'i dderbyn. Dim ond y merlod hynny a reolir gan y sefydliadau hyn, ar ardaloedd penodol o dir, sydd wedi eu cynnwys yn y dirymiad. Daw'r anifeiliaid hyn yn destun rheolau adnabod llawn ar ôl cael eu symud o'r ardaloedd dynodedig hyn, eu dod i ddefnydd domestig neu yn yr achos o dderbyn triniaeth feddyginiaethol.

Mae'r holl ferlod eraill a gedwir ar dir comin yn destun rheolau adnabod ceffylau ac felly mae'n ofynnol eu hadnabod trwy osod microsglodyn a chyflwyno pasbort.

Mae Rheoliad 2015/262 yn cadw dirymiad o ran adnabod equidae penodol sy'n byw mewn amodau gwyllt neu led-wyllt (Erthygl 13). Mae hyn yn nodi y gall Gweinidogion Cymru benderfynu y gellir adnabod equidae sy'n boblogaethau diffiniedig yn byw mewn amodau gwyllt neu led-wyllt mewn ardaloedd penodol trwy ddogfen adnabod dim ond pan fyddant yn cael eu tynnu o boblogaethau o'r fath (ac eithrio trosglwyddiad o dan oruchwyliaeth swyddogol o un boblogaeth ddiffiniedig i un arall) neu'n cael eu symud i ddefnydd domestig. Mae croniciad 32 Rheoliad 2015/262 yn nodi, o ran equidae yn crwydro mewn amodau gwyllt neu led-wyllt:

*"Member States should be able to establish specific regimes for the identification of equidae roaming in wild or semi-wild conditions in defined areas or territories, including nature reserves.... However, any such derogation from the general obligation to identify equidae should be granted only where those defined populations of equidae living under wild or semi-wild conditions are effectively separated from equidae in any form of domestic use and remain not only outside of human control for their survival and reproduction, but also outside of the scope of Council Directive 98/58/EC which does not apply to animals living in the wild".*

O ystyried bod croniciad 32 wedi ei gynnwys yn Rheoliad 2015/262, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod dadleuon i gefnogi'r safbwynt nad yw'r dirymiad yn ymwneud ag equidae sy'n byw mewn amodau gwyllt neu led-wyllt yn berthnasol i'r sefydliadau hynny sy'n gweithredu ar hyn o bryd o dan delerau'r dirymiad a sefydlwyd o dan Reoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009.

**Cwestiwn 9: A ydych chi'n cytuno bod y sefydliadau hynny sydd wedi eu cynnwys ar hyn o bryd o dan y dirymiad ar gyfer merlod lled-fferal y tu allan i gwmpas y dirymiad?**

**YDW ..... NAC YDW .....**

**Cwestiwn 10: Rhowch eich rhesymau am eich ymateb i C9. A ydych chi'n credu bod unrhyw geffylau yng Nghymru sy'n bodloni'r diffiniadau a nodir yn y Rheoliad Ewropeaidd? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich safbwynt.**

## **Dd. Newid microsglodion sydd wedi methu (Erthygl 18)**

Mae Rheoliad 2015/262 yn rhoi'r opsiwn i Aelod-wladwriaethau o'i gwneud yn ofynnol mewnbrannu microsglodyn newydd mewn ceffylau y mae'r microsglodyn a fewnbrannwyd ynddynt yn flaenorol wedi rhoi'r gorau i weithio. Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol yng Nghymru ar hyn o bryd i newid microsglodyn pan fydd y microsglodyn gwreiddiol yn methu.

Nodir bod achosion o ficrosglodion yn methu yn brin, ond pan fydd yn digwydd ystyrir mai mewnbrannu microsglodyn newydd mewn ceffyl yw'r ffordd fwyaf cost-ffeithiol o gadarnhau manylion adnabod y ceffyl a sicrhau y gellir ei olrhain. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys gofyniad i ail-ficrosglodynnu ceffyl os bydd microsglodyn yn methu.

**Cwestiwn 11: A ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru reoleiddio i'w gwneud yn ofynnol i berchnogion ail-ficrosglodynnu ceffyl pan fo'r microsglodyn wedi methu?**

**YDW ..... NAC YDW .....**

**Cwestiwn 12: Rhowch eich rhesymau a rhowch unrhyw dystiolaeth o pam yr ydych o blaid / ddim o blaid yr opsiwn hwn (cwestiwn 10).**

## **E. Equidae y bwriedir eu lladd i gael eu bwyta gan bobl a chofnod meddyginiaeth (Erthygl 37)**

Ar ôl darganfod cig ceffyl yn y gadwyn fwyd pobl yn 2013, ymgwymerodd yr UE i gryfhau'r drefn o ran ceffylau y gellir eu cyflwyno i gael eu lladd i gael eu bwyta gan bobl. Un rhan hollbwysig o'r drefn hon yw adrodd data a gwybodaeth am y ceffyl yn gywir (gan gynnwys unrhyw feddyginiaeth a roddwyd iddo) a'i statws cadwyn fwyd ar y pasbort ac yn y gronfa ddata geffylau ganolog - mae hyn yn sicrhau y gall penderfyniad cytbwys gael ei wneud gan unrhyw filfeddyg sy'n trin ceffyl a chan staff lladd-dai pan fydd ceffyl yn cael ei gyflwyno i gael ei ladd.

Mae Rheoliad 2015/262 yn cyflwyno gofyniad i geidwad ceffyl hysbysu'r Cyrff Cyhoeddi Pasbortau pan fydd ceffyl wedi cael ei allgofnodi o'r gadwyn fwyd i bobl, a dylai'r hysbysiad hwn gael ei wneud o fewn 14 diwrnod o ddyddiad llofnodi Rhan 2 Adran 2 y pasbort. Mae Rheoliad 2015/262 yn galluogi'r Aelod-wladwriaethau fabwysiadu mesurau i sicrhau mai cyfrifoldeb y milfeddyg, yn hytrach na'r ceidwad, yw darparu'r hysbysiad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r ceidwad ddylai fod yn gyfrifol am hyn, gan y dylai cadw cofnodion fod yn rhan o berchnogaeth anifeiliaid gyfrifol. Diffinnir 'Ceidwad' fel unrhyw unigolyn naturiol neu gyfreithiol sy'n meddu ar equidae, neu'n gyfrifol am eu cadw, pa un a yw am wobwr ariannol ai peidio, a pha un a yw ar sail dros dro neu barhaol, gan gynnwys wrth gludo, mewn marchnadoedd, neu yn ystod cystadlaethau, rasys neu ddigwyddiadau diwylliannol. Mae'r Llywodraeth Cymru o'r farn bod hysbysu'r Cyrff Cyhoeddi Pasbortau neu'r gronfa ddata am statws cadwyn fwyd ceffyl yn rhywbeth sy'n rhan o gyfrifoldeb perchnogaeth. Ni ystyrir ei bod yn briodol felly trosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn i'r milfeddyg.

**Cwestiwn 13: A ydych chi'n cytuno y dylai'r ceidwad fod yn gyfrifol yn gyfreithiol am hysbysu'r Corff Cyhoeddi Pasbortau pan fydd ceffyl wedi cael ei allgofnodi o'r gadwyn fwyd i bobl?**

**YDW ..... NAC YDW .....**

**Cwestiwn 14: Rhowch eich rhesymau a rhowch unrhyw dystiolaeth am pam yr ydych o blaid / ddim o blaid yr opsiwn hwn (cwestiwn 13).**

## **F. Cosbau a Gorfodi (Erthygl 41)**

Mae Rheoliad 2015/262 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau bennu rheolau ar gosbau o ran diffyg cydymffurfiaid â'r drefn adnabod ceffylau. Dylai cosbau fod yn effeithiol, yn gymesur ac yn anghymhellol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried, ochr yn ochr â'r gweinyddiaethau eraill, sut y dylid mynd i'r afael â'r mater o gydymffurfio â'r rheoliadau a'u gorfodi. Rydym yn ymwybodol

o drafodaethau gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r diwydiant ei bod yn ymddangos mai prin yw'r wybodaeth sydd gan lawer o berchnogion ceffylau o ran eu cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth. Fe'n hysbyswyd bod rhai pobl yn ei chael yn anodd cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, neu'n dewis peidio â gwneud hynny gan eu bod o'r farn bod y drefn orfodi yn gyfyngedig a bod diffyg ymateb cadarn.

**Cwestiwn 15: A oes unrhyw faterion eraill y mae angen i Lywodraeth Cymru roi sylw iddynt er mwyn gwella cydymffurfiad? Rhowch cymaint o fanylion â phosibl:**

**Cwestiwn 16: A ydych chi'n credu y gellid cymryd camau i wella cydymffurfiad â'r drefn adnabod ceffylau? Os felly, nodwch yr hyn yr ydych chi'n credu y gellid ei wneud.**

**Cwestiwn 17: Rhannwch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych, yn enwedig o ran sut y gellid cyfathrebu gofynion y rheoliadau i sicrhau lefel gref o gydymffurfiad.**

Yng Nghymru, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009 (Rheoliadau 2009). O dan Reoliadau 2009, mae'r rheini a geir yn euog o gyflawni trosedd yn derbyn euogfarn droseddol a dirwy.

Er mwyn i awdurdodau lleol ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth mewn ffordd gymesur, cynigir y dylem:

- Adolygu'r troseddau presennol;
- Ystyried cyflwyno sancsiynau sifil a chanllawiau i awdurdodau lleol – bydd hyn yn helpu i sicrhau bod awdurdodau lleol yn eglur ynghylch pa ddulliau sydd ar gael iddynt wrth ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau.

Nod Llywodraeth Cymru yw cynyddu cydymffurfiad ymhlith y rheini sy'n ddarostyngedig i ofynion Rheoliad 2015/262, gan gynnwys perchnogion, ceidwaid a milfeddygon.

Er mwyn ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol ymdrin ag achosion o fethu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, rydym yn ystyried disodli'r polisi gorfodi presennol o sancsiynau troseddol yn unig gyda'r opsiwn o ddefnyddio sancsiynau sifil y gellid eu seilio, yn ôl yr angen, ar sancsiynau troseddol a/neu'r llysoedd sifil.

Gallai sancsiynau sifil roi'r gallu i awdurdodau lleol ddefnyddio amrywiaeth o opsiynau gorfodi. Er enghraifft sancsiynau fel rhybuddion ysgrifenedig, llythyrau cyngor, a rhybuddion syml yn ogystal â'r gallu i gyflwyno dirwy, ar ffurf Hysbysiad Cosb Benodedig, er enghraifft.

Byddai cyflwyno sancsiynau sifil yn golygu na fyddai perchnogion, ceidwaid a milfeddygon ceffylau yn wynebu mwyach y bygythiad awtomatig o euogfarn droseddol am yr hyn y gellid ei ystyried yn fân droseddau. Gellid erlyn troseddwr difrifol o hyd.

Ceir rhagor o wybodaeth yn ymwneud â'r sancsiynau sifil arfaethedig a allai fod ar gael i awdurdodau lleol o dan ddeddfwriaeth ddomestig ddiwygiedig yn Atodiad B

**Cwestiwn 18: A ydych chi'n credu y gellid gwella cydymffurfiad â'r drefn adnabod ceffylau trwy ddefnyddio sancsiynau sifil a/neu sancsiynau gweinyddol? Rhowch resymau am eich ateb.**

**YDW ..... NAC YDW .....**

**Cwestiwn 19: A ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw drefn o sancsiynau sifil, pe bai'n cael ei chyflwyno, barhau i gael ei seilio ar sancsiynau troseddol a / neu'r system llysoedd sifil ar gyfer troseddau mwy difrifol? Rhowch resymau am eich ateb.**

**YDW ..... NAC YDW .....**

## **Ff. Costau**

Gall cadw ceffyl fod yn ddrud o safbwynt ariannol. Er y byddai'r cynnig i ficrosglodynnu pob ceffyl yn arwain at gostau ychwanegol i'r perchnogion hynny sydd â cheffylau ar hyn o bryd a adnabuwyd cyn i Reoliad 2008/504 ddod i rym, ystyrir y byddai'r costau hyn yn gymharol isel o ystyried y manteision y byddent yn eu cynnig o ran darparu system adnabod electronig lawn ar gyfer poblogaeth geffylau'r DU. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu eich sylwadau ar y costau yr ydych yn mynd iddynt wrth adnabod ceffylau.

**Cwestiwn 20: Rhowch amcangyfrif o'r costau presennol yr ydych yn mynd iddynt i gydymffurfio â'r gofynion adnabod (Dylech gynnwys manylion cryno a dadansoddiad o gostau).**

## **G. Sylwadau neu safbwyntiau ychwanegol**

Hoffai Llywodraeth Cymru glywed unrhyw sylwadau neu safbwyntiau ychwanegol sydd gennych am unrhyw un o'r materion a godir yn yr ymgynghoriad hwn, neu Reoliad 2015/262 yn fwy cyffredinol.

Hefyd, rydym yn cynnwys tabl yn Atodiad B sy'n nodi rhai o'r materion y mae gan LIC ddull arfaethedig o ymdrin â nhw. Gwahoddir sylwadau ar y sylwadau hyn pe bai ymgynghoreion yn dymuno eu darparu.

**Cwestiwn 21: Rhowch unrhyw safbwyntiau neu sylwadau ychwanegol sydd gennych ar y drefn adnabod ceffylau nad ydych wedi eu rhoi ar ffurf ymateb i gwestiynau cynharach yn yr ymgynghoriad hwn.**

## Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi ymatebion i ymgynghoriadau – ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Fel rheol, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) ei awdur ynghyd â'r ymateb, gan fod hyn yn helpu i ddangos y cynhaliwyd yr ymarfer ymgynghori yn briodol.

Ticiwch yma os byddai'n well gennych i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cadw'n gyfrinachol:

Ticiwch yma os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol: